# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Penmaenmawr**

**Ysgol Pencae**
**Ffordd Graiglwyd**
**Penmaenmawr**
**LL34 6YG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/11/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Penmaenmawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Penmaenmawr |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>Arolygiad ar y Cyd ag Estyn ar 29 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

erfynol heb ei
yhoeddi

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol; nid ydym wedi ystyried themâu'r amgylchedd, arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch yn gynnes gan y staff cyfeillgar. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac â'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae dealltwriaeth y staff o sut i roi arferion a gweithdrefnau diogelu ar waith wedi gwella'n sylweddol. Rhoddir blaenoriaeth i hyn ac mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn dda. Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta prydau iach. Mae'r staff yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn eu canmol yn effeithiol am yr hyn maent wedi'i gyflawni. Mae'r staff yn cynllunio profiadau diddorol er mwyn i'r plant ddatblygu eu chwarae a'u dysgu yn gadarnhaol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r ystafell chwarae yn fawr ac yn addas ar gyfer anghenion y plant. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i drefnu'n ddeniadol gydag amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau o ansawdd uchel. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae er mwyn i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i wneud gwelliannau sylweddol i'r lleoliad, sydd wedi arwain at ganlyniadau gwell i'r plant. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn bodloni rheoliadau. Mae'r lleoliad yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r plant yn fodlon ac yn egnïol, yn mynegi mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu drwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan greu cyfeillgarwch ac maent yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn gweithgareddau amser cylch. Soniodd plentyn am y tywydd ac arweiniodd hyn at drafodaeth fywiog â'r staff a'i ffrindiau. Mae'r plant yn falch o ddangos eu gwaith celf a siarad amdano. Er enghraifft, dangosodd plentyn ei lun a dywedodd, 'look its sunshine with hearts.'

Mae'r plant yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol, er enghraifft, wrth gyrraedd y lleoliad maent yn cael eu cyfarch yn gynnes gan y staff a'u helpu i roi eu cotiau a'u bagiau ar eu pegiau.  Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y staff i ofyn am bethau, er enghraifft, gofynnodd plentyn i aelod o'r staff am fwy o ffrwythau amser byrbryd a roddwyd nhw ar unwaith.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, maent yn dysgu i gymryd eu tro, rhannu a chydweithio'n dda. Er enghraifft, gweithiodd dau ffrind fel tîm i roi rhuban coch drwy dyllau mewn disgiau pren ac ymarfer eu rholio ar draws y llawr. Mae'r plant yn gwrtais; maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser prydau ac yn eistedd yn hapus gyda'i gilydd wrth y bwrdd.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig; maent yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau archwilio'r gweithgareddau bwrdd sydd ar gael ac yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu chwilfrydedd. Er enghraifft, rhoddodd y plant eu dwylo mewn tybiau llawn spaghetti lliw, gleiniau a dail gan wneud sylwadau ar y gweadau a'r synau gwahanol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn datblygu eu dychymyg yn dda ac yn defnyddio amrywiaeth o nwyddau cartref wedi'u hailgylchu i ymestyn eu gweithgarwch chwarae rôl. Er enghraifft, roedd ffrindiau yn brysur yn y gornel gartref yn esgus coginio ag amrywiaeth o fwydydd tegan pren. Gwnaethant ddangos i ni sut roeddent yn rhoi'r caws yn ofalus ar y bara cyn ei roi yn y ffwrn degan. Roedd y plant yn mynd ati i ymarfer eu sgiliau rhifedd a gwnaethant ddangos i'r staff yn hyderus sut y gallant roi'r siglwyr lliw â rhifau arnynt yn nhrefn gywir y rhifau. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus.  Wrth chwarae yn yr awyr agored, roeddent yn cael llawer o hwyl yn rhedeg ar ôl ei gilydd a defnyddio'r cerbydau pedal.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn ymddiddori mewn arwain eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, roedd dau ffrind wrth eu bodd â'r hyn roeddent yn ei gyflawni wrth iddynt ddefnyddio'r bwrdd deallus digidol ar eu pen eu hunain i dynnu cylchoedd o wahanol faint. Dangosodd y plant i ni yn hyderus sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Maent yn gofalu am y plant mewn ffordd gynnes, garedig a chyfeillgar.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn bodloni rheoliadau drwy feithrin a gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arferion a gweithdrefnau diogelu. Maent yn cofnodi presenoldeb y plant a nhw eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion bwyta'n

iach, er enghraifft, amser byrbryd roedd y plant yn cael cynnig tost, dewis o ffrwythau a naill ai dŵr neu laeth i'w yfed.

Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cofnodi'r canlyniad er mwyn gwella'r ymarferion hyn yn y dyfodol. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ond nid yw pob un o'r rhain yn cael eu hesbonio'n glir na'u llofnodi gan rieni bob amser i ddangos eu bod yn cael eu hysbysu. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â chanllawiau rheoli heintiau cyfredol.

Mae'r staff yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol yn briodol ac yn annog y plant i gydweithio a bod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel a hapus.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain yn dda. Mae'r staff yn ymgysylltu â'r plant yn gyson yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft, bu aelod o staff yn arsylwi ar blant yn chwarae yn ystod gweithgaredd celf a chrefft ac yn eu helpu, yn ôl yr angen, gyda'u sgiliau llawysgrifen. Mae'r staff ar gamau cynnar datblygu system newydd i gofnodi'r arsylwadau hyn er mwyn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygiad pob plentyn. Arweiniodd y person â chyfrifoldeb sesiwn ganu fywiog lle roedd y plant yn teimlo'n hyderus i ganu'n llawn brwdfrydedd. Mae'r staff yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn. Maent yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn effeithiol er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant.

Mae'r staff yn annog y plant i ymgysylltu â'r gymuned leol er mwyn gwella eu sgiliau cymdeithasol, er enghraifft, roedd ffotograffau yn dangos plant yn mwynhau teithiau cerdded mewn coetir gerllaw ac yn dysgu am waith pobl yn y gymuned. Er enghraifft, cafodd y plant gyfle i siarad â swyddog heddlu lleol ac eistedd yng nghar yr heddlu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n llwyddiannus.

Mae asesiadau risg gwell yn nodi'n briodol y risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod staff yn defnyddio arferion glanhau da. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda digon o deganau o ansawdd da, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd greadigol ac maent yn gwahodd plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhwydd i adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy i feithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae'r plant wedi bod yn archwilio thema'r hydref. Mae gludweithiau dail wedi'u hargraffu a phwmpenni wedi'u gwneud o blatiau papur paentiedig yn addurno'r ardal chwarae.

Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol gyda detholiad o deganau i'r plant ddewis o'u plith a meithrin eu sgiliau corfforol a'u sgiliau cydgysylltu'n dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ac i reoli'r lleoliad yn briodol. Maent wedi adeiladu tîm staff cryf sy'n ymroddedig ac yn llawn cymhelliant. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai ardaloedd ymhellach er mwyn bodloni rheoliadau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r datganiad o ddiben wedi'i wella yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith yn briodol a mae adolygiad yn yr arfaeth. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer y staff yn gyfredol a bod yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf wedi'i gwblhau. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau'r staff a'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y staff a'r rheolwyr yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd er mwyn gwella eu hymarfer a thrafod eu datblygiad proffesiynol er mwyn bodloni gofynion. Rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth (diffyg cydymffurfio) ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ‘gefnogol’ a'u bod bob amser ar gael os bydd angen. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad.

Ni wnaethom siarad â rhieni yn ystod ein hymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r gymuned leol. Mae profiadau cadarnhaol o'r fath yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Gwella sgiliau staff wrth gofnodi damweiniau a digwyddiadau gan sicrhau bod yr esboniad a'r camau a gymerir yn cael eu hysgrifennu'n glir gan ddarparu digon o wybodaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r staff yn cael eu harfarnu'n flynyddol na'u goruchwylio'n rheolaidd.  Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd a'i arfarnu'n flynyddol. | Heb Gyflawni |
| 22 | Nid oeddynt wedi dilyn eu polisi diogelu plant.  Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cadw cofnodion manwl a dilyn eu polisi diogelu plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth am y telerau ac amodau. Diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth gofynnol. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2023